Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesheg | This document is also available in English

# Cronfa Amgylchedd a Diwylliant Ymchwil Cymru (WREC) 2026/27

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 13 Awst 2026 |
| **Cyfeirnod:** | Medr/2026/43 |

| | |
|---|---|
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru |

| | |
|---|---|
| **Ymateber erbyn:** | 24 Medi 2027 |
| **Rhagor o wybodaeth:** | Hayley Moss \| ymchwil@medr.cymru |


**Crynodeb:**

Mae'r cyhoeddiad hwn yn darparu manylion dyraniadau sefydliadol cronfa Amgylchedd a Diwylliant Ymchwil Cymru (WREC) ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2026/27.

Bydd cyllid WREC yn cael ei ddyrannu i brifysgolion Cymru sy'n derbyn cyllid Ymchwil o Ansawdd (QR) (fel a nodir yn Medr/2026/16: Buddsoddiad Medr ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27). Disgwylir i gyllid WREC barhau tan 2027/28, yn amodol ar gyllidebau yn y dyfodol. Mae dyraniadau blwyddyn academaidd 2026/27 yn seiliedig ar ddata o gofnod staff a myfyrwyr HESA 2024/25.



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

**Amgylchedd a Diwylliant Ymchwil Cymru**

1. Fel a nodir yn ein Cynllun Strategol, mae Medr yn ymrwymedig i ddatblygu amgylcheddau ymchwil â diwylliannau cadarnhaol sy'n denu ac yn cadw'r ymchwilwyr a'r arloeswyr gorau o bob rhan o'r byd. Rydym yn uchelgeisiol ar gyfer ein sector ymchwil yng Nghymru. Mae arnom eisiau i Gymru fod yn adnabyddus fel lle gwych i wneud ymchwil sydd, trwy gydweithio, yn sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

2. Mae datblygiad a chynaliadwyedd diwylliannau ymchwil iach mewn prifysgolion yn allweddol i gefnogi ymchwil ragorol. Mae hefyd yn bwysig yn ei rinwedd ei hun. Mae arnom eisiau cefnogi'r gweithlu amrywiol sy'n cyfrannu at ymchwil, gan gynnwys staff technegol a phroffesiynol. Trwy ein cyllid, a'n gwaith gyda phartneriaid eraill, gan gynnwys cyrff cyllido'r DU ar REF 2029, byddwn yn rhoi anogaeth ar gyfer amgylcheddau ymchwil sy'n ategu uniondeb, amrywiaeth, cynwysoldeb, llesiant, iechyd meddwl a pharch.

3. Mae cyllid WREC yn darparu cymorth wedi'i neilltuo ar gyfer gwella diwylliannau ac amgylcheddau ymchwil. Fodd bynnag, mae Medr yn disgwyl y dylai cynnal diwylliant iach fel rhan annatod o weithgarwch ymchwil ac arloesi a'i gefnogi'n chael ei gefnogi'n strategol drwy gyllid craidd ar gyfer ymchwil ac arloesi.

4. Dyrennir y bydsoddiad o £200,000 i brifysgolion Cymru i gefnogi prosiectau, rhaglenni a gweithgareddau sy'n cyfrannu'n weithredol at gefnogi neu ddatblygu diwylliannau ac amgylcheddau ymchwil cadarnhaol ac iach. Gellid defnyddio'r cyllid hwn i estyn prosiectau presennol, a hefyd ar gyfer gweithgareddau a seilwaith newydd.

5. Ar gyfer y pedwerydd flwyddyn hon o gyllid, byddem yn annog sefydliadau i barhau i wreiddio ffordd werthusol o feddwl yn eu gweithgareddau i ddeall deilliannau ac effeithiau eu gweithgareddau diwylliant ymchwil. Y rheswm dros hyn yw er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau'n gwneud newidiadau pendant i ddiwylliant ymchwil neu'n esgor ar wersi ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio. Yn y flwyddyn academaidd hon mae gennym ddiddordeb yn neilliannau gwerthusiadau interim.  Bydd Medr yn paratoi gwerthusiad o'r gronfa WREC yn 2027 ac mae'n bosib y byddwn yn geisio trafodaethau dilynol yn seiliedig ar eich cyflwyniadau monitro.

6. Wrth benderfynu sut i ddefnyddio dyraniadau, dylai sefydliadau barhau i gyfeirio at y tair thema a amlinellir yn y tabl isod. Mae'r rhain yn seiliedig ar themâu a ddatblygwyd trwy ymgysylltu â sectorau ymchwil Cymru a'r DU. Nid rhestr gynhwysfawr mo hon ac anogir sefydliadau i ddefnyddio'r cyllid yn hyblyg gan ystyried eu blaenoriaethau strategol, ac egwyddorion ehangach sy'n ymwneud â gwella diwylliannau ac amgylcheddau ymchwil.

| Themâu | Is-feysydd posibl i gyd-fynd â hynny |
|---|---|
| **Creu Diwylliant/ Diwylliannau Ymchwil Cadarnhaol** | • Gwobrwyo a chydnabod ymddygiadau cadarnhaol<br>• Adnabod sut y mae diwylliant ymchwil cadarnhaol yn edrych gan gynnwys ar gyfer llesiant ac iechyd meddwl<br>• Gwerthfawrogi gweithgarwch ymchwil amrywiol |

| | |
|---|---|
| | • Datblygiad gyrfa ymchwilwyr a phroffesiynau cysylltiedig<br>• Cymorth ar gyfer prosesau pontio gyrfaol, mandylledd gyrfaol a symudedd rhwng sectorau<br>• Datblygu fframweithiau diwylliant ymchwil<br>• Gwella seilwaith a chapasiti i roi cymorth i ennill mwy o grantiau ymchwil<br>• Mynd i'r afael â bwlio ac aflonyddu<br>• Colegoldeb a pherthyn<br>• Gwerthfawrogi'r ystod lawn o brofiadau, sgiliau a chyfraniadau gan bawb sy'n cyfrannu at ymchwil |
| **Gwreiddio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** | • Deall ac ymdrin â rhwystrau i gynhwysiant ar gyfer ymgeiswyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y cyflenwad o dalent ymchwil gyda golwg ar sicrhau bod yr amgylchedd ymchwil yn hygyrch, yn gynhwysol ac yn deg i bawb<br>• Cydnabod yr holl gyfraniadau gan staff a'r fframweithiau llwybrau gyrfa ar eu cyfer, gan gynnwys ar gyfer staff â chontractau am gyfnod penodedig, staff technegol a staff sy'n galluogi ymchwil<br>• Gwella mynediad at ymchwil a chyfranogiad mewn ymchwil o blith grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol<br>• Deall ac ymdrin â'r heriau a brofir gan y rhai a all fod yn profi anfanteision lluosog |
| **Ymchwil Gyfrifol** | • Uniondeb, bod yn agored a moeseg<br>• Gwella'r modd y cynhelir ymchwil a'i atgynyrchioldeb<br>• Asesu a diwygio ymchwil<br>• Cydweithio a chynnull sefydliadau i rannu arfer<br>• Atgynyrchioldeb metrigau |

**Cynhwysiant**

7. Mae gan y sector ymchwil rôl bwysig o ran cefnogi Cymru gynhwysol, gan gynnwys cyfleoedd i wella cymorth i staff a myfyrwyr sy'n profi anfantais ar hyn o bryd. Mae dyletswydd strategol ar Medr i hybu cyfle cyfartal ac rydym wedi nodi ymrwymiadau a chamau gweithredu i gyflawni hyn yn ein Cynlluniau Strategol a Gweithredol. Mae Medr yn datblygu system reoleiddio newydd sy'n cynnwys amodau ar les staff a myfyrwyr a chyfle cyfartal.

8. Bydd hi'n ofynnol i ddarparwyr addysg uwch gydymffurfio â'r amodau hyn, gan gynnwys fel y maent yn berthnasol i ymchwil. Mae Medr yn disgwyl i gyllid WREC gael ei ddefnyddio i ymdrin â rhwystrau i gynhwysiant ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y cyflenwad o dalent ymchwil ac i ddatblygu amgylchedd ymchwil cefnogol a chynhwysol, sy'n gwerthfawrogi cyfraniad staff academaidd, staff sy'n galluogi ymchwil a staff cymorth ymchwil, a staff gwasanaethau proffesiynol.

9. Rydym yn croesawu'n arbennig weithgareddau sy'n cynorthwyo pobl sydd â nodweddion gwarchodedig i gael mynediad cyfartal at yrfaoedd ymchwil boddhaus ac i gyfranogi mewn ymchwil fel dinasyddion, gan gyfrannu at strategaethau a chynlluniau Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb gan gynnwys, ymhlith eraill, y Cynllun Hawliau Pobl Anabl.

10. Rydym hefyd yn croesawu gweithgareddau sy'n gwneud cynnydd tuag at nodau a chamau gweithredu'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, ac yn ystyried ymrwymiadau'r sefydliad yng nghynllun gweithredu ei siarter cydraddoldeb hil. Rydym yn disgwyl gweld myfyrwyr a staff ymchwil yn cael eu cynnwys yn strategaethau a chynlluniau gweithredu llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, sefydliadau, sy'n ofynnol trwy gyllid llesiant ac iechyd Medr: Medr/2026/33: Cefnogi gwrth-hiliaeth mewn addysg uwch: canllawiau a dyraniadau 2026/27.

11. Disgwylir i sefydliadau sicrhau bod myfyrwyr ymchwil a staff yn cael eu cynnwys yn strategaethau a chynlluniau gweithredu lles a iechyd y sefydliadau, gan gynnwys iechyd meddwl, sy'n ofynnol trwy arian lles ac iechyd Medr: Medr/2026/37: Cyllid llesiant ac iechyd meddwl addysg uwch 2026/27.

12. Mae Medr yn mynd ati'n frwd i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn ymchwil, nid dim ond i feithrin amgylchedd cyfoethog a chynhwysol sy'n adlewyrchu treftadaeth ddiwylliannol Cymru, ond hefyd gan gydnabod y dyletswyddau statudol a osodir ar sefydliadau i gefnogi'r Gymraeg a darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Gellir defnyddio cyllid WREC i gefnogi gweithgareddau i roi anogaeth ar gyfer ymchwil trwy gyfrwng y Gymraeg.

### Rhannu gwersi ac arferion da

13. Mae Medr yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio ar draws y sector i ddatblygu diwylliannau ymchwil cadarnhaol a rôl sefydliadau megis Rhwydwaith Arloesi Cymru (WIN), Cymdeithas Ddysgedig Cymru, a Prifysgolion Cymru. Rydym yn gweithio trwy bartneriaethau a gyllidir gyda'r sefydliadau hyn i barhau i gefnogi cymunedau amrywiol i achosi newid. Anogir sefydliadau'n gryf i gydweithio ac adeiladu ar weithgareddau presennol sy'n cefnogi diwylliannau ymchwil cadarnhaol, er enghraifft: Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr (Cymdeithas Ddysgedig Cymru).

14. Yn ystod 2025/26, cefnogodd Medr Gymdeithas Ddysgedis Cymru trwy'r Gronfa Gydweithredol i gyflwyno'r Cynllun Grant Rhwydweithiau Diwylliant Ymchwil. Fel rhan o Gronfa WREC ehangach, mae'r Gronfa Gydweithredol yn hybu diwylliant ymchwil drwy gyfuniad o weithgareddau a arweinir gan sefydliadau a gweithgareddau a arweinir gan y gymuned. Bydd y cefnogaeth hon yn parhau yn 2026/27.

15. Mae diwylliant ymchwil cadarnhaol a chynhwysol yn hanfodol i ddatblygu cenhadaeth ddinesig prifysgolion yng Nghymru. Trwy feithrin amrywiaeth, tegwch, a chydweithio, mae prifysgolion yn galluogi ymchwil sy'n ymatebol yn gymdeithasol ac yn cael ei llywio gan y gymuned a honno'n dwyn manteision cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ystyrlon i Gymru a'i chymunedau. Mae amgylcheddau cynhwysol hefyd yn gallu cefnogi dulliau ymgysylltu arloesol, gan rymuso ymchwilwyr i gyd-greu gwybodaeth a datrysiadau gyda phartneriaid allanol.

**Dyraniadau sefydliadol**

16. Mae'r dull a ddefnyddir i ddyrannu cyllid ar gyfer 2026/27 yn seiliedig ar ddata staff a myfyrwyr HESA 2024/25:
    - Nifer y staff CagALI ar gontractau ymchwil-yn-unig yn y sefydliad addysg uwch
    - Nifer y staff CagALI ar gontractau addysgu ac ymchwil yn y sefydliad addysg uwch
    - Nifer y myfyrwyr ymchwil ôl-radd yn y sefydliad addysg uwch

17. Defnyddir isafswm dyraniad o £5k i sicrhau bod gan bob prifysgol ddyraniad defnyddiadwy i wella eu diwylliannau ac amgylcheddau ymchwil. Mae data HESA a ddefnyddiwyd wedi cael ei wirio gan brifysgolion.

| | CagALI | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Sefydliad** | **Contractau Ymchwil** | **Contractau Addysgu ac Ymchwil** | **Myfyrwyr Ymchwil Ôl-radd** | **Cyfanswm** | **Dyraniad** |
| Prifysgol De Cymru | 56.595 | 667.857 | 197.59 | 922 | **£18,974** |
| Prifysgol Aberystwyth | 99.848 | 277.406 | 247.982 | 625 | **£12,866** |
| Prifysgol Bangor | 168.63 | 276.204 | 510.625 | 955 | **£19,662** |
| Prifysgol Caerdydd | 855.976 | 1,361.392 | 1,578.527 | 3796 | **£78,114** |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 33.849 | 354.494 | 347.715 | 736 | **£15,147** |
| Prifysgol Abertawe | 366.817 | 602.350 | 681.284 | 1,650 | **£33,964** |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 28.991 | 568.069 | 169.468 | 767 | **£15,774** |
| Prifysgol Wrecsam | 3.544 | 219.114 | 44.494 | 267 | **£5,498** |
| **Cyfanswm** | **1,614.250** | **4,362.886** | **3,777.685** | **9,719** | **£200,000** |

18. Mae Medr yn nodi nad yw methodoleg dyrannu cyllid WREC yn benodol yn cynnwys staff sy'n cefnogi ymchwil megis rhai o'r gymuned dechnegol, a staff gwasanaethau proffesiynol. Mae Medr yn cydnabod cyfraniadau hollbwysig yr aelodau hyn o staff i ddiwylliannau ymchwil a'r amgylchedd ymchwil.

**Trefniadau Monitro Cronfa WREC**

19. Bydd taliadau ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27 yn cael eu gwneud ym mis Awst 2026. Mae Medr yn disgwyl sicrwydd ynghylch y prosiectau a'r gweithgareddau a gyflawnir trwy'r gronfa hon. Dylai dyraniadau gael eu gwario'n llawn ym mlwyddyn academaidd 2026/27.

20. Dylai sefydliadau gwblhau ffurflen fonitro cyllid WREC yn **Atodiad A** erbyn **24 Medi 2027**:

- **Rhan 1 – Cyd-destun Strategol**: dynodwch gyd-destun strategol y diwylliant ymchwil yn eich sefydliad.
- **Rhan 2 – Meysydd Thematig:** dynodwch sut y mae'r gweithgareddau/prosiectau'n cyd-fynd â'r meysydd thematig a amlinellir ym mharagraff 7, a pha un: 1. a fyddai gweithgareddau wedi digwydd heb y cyllid, 2. a ddigwyddodd gweithgareddau trwy ddarparu cyllid WREC yn unig, ynteu 3. a allai gweithgareddau fod wedi digwydd heb y cyllid, ond i raddau llai.
- **Rhan 3 – Gwerthuso:** eglurwch effeithiolrwydd ac effaith y prosiectau/gweithgareddau.
- **Rhan 4– Cadarnhad:** cadarnhewch fod cyllid WREC wedi cael ei wario yn unol â'r wybodaeth a amlinellir yn y cyhoeddiad hwn.

21. Bydd gwybodaeth a gyflwynir gan sefydliadau yn eu hadroddiadau'n sail i dystiolaeth i ategu penderfyniadau ynghylch cyllidebau a chymorth ar gyfer y diwylliant a'r amgylchedd ymchwil ledled Cymru yn y dyfodol.

22. Rydym yn croesawu cyflwyno adroddiadau monitro yn Gymraeg.

### Rhagor o wybodaeth

23. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Hayley Moss (ymchwil@medr.cymru).

### Asesu effaith

24. Rydym wedi cynnal asesiad o'r effaith i helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb. Rydym yn rhagweld effaith gadarnhaol ar hil, rhyw, anabledd, oedran, crefydd a chred. Fe wnaethom hefyd ystyried effaith y polisi hwn ar y Gymraeg, darpariaeth yn y Gymraeg yn y sector AU yng Nghymru, nodweddion economaidd-gymdeithasol ac effeithiau posibl tuag at y nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**